



CYHOEDDI LINE-UP GŴYL FACH Y FRO 2018!

Cyhoeddwyd ar Dydd Miwsig Cymru y bydd Gŵyl Fach y Fro yn dychwelyd unwaith eto i Ynys y Barri eleni, ar ddydd Sadwrn Mehefin 16eg, ac mae Menter Bro Morgannwg yn falch heddiw i gyhoeddi line-up llawn Gŵyl Fach y Fro 2018.

Yn perfformio ar Brif Lwyfan Gŵyl Fach y Fro eleni bydd Candelas, Geraint Lovgreen a'r Enw Da, Alys Williams a'r Band, Al Lewis, Mabli Tudur a'r Band a Fleur de Lys. Hefyd, bydd cannoedd o blant o ysgolion Cymraeg y Sir yn camu i'r llwyfan i berfformio yn ystod y diwrnod, sy'n cael ei gyflwyno gan y DJs Bethan Elfyn a Gareth Potter.

Bydd stondinau cynnyrch a chrefftau Cymreig gan ddarparuwr lleol yn yr ŵyl yn oystal ag ardal chwarae, beiciau bybls, sgiliau syrcau, salon glitter, perfformiadau stryd, gweithdai a gweithgareddau amrywiol gan bartneriaid Cymraeg yr ardal gan gynnwys Dysgu Cymraeg y Fro, Cymraeg i Blant, Mudiad Meithrin ac Adran Chwaraeon yr Urdd.

Bydd Cavan a "Myfanwy" The Tin Can Filly yn gweini amrywiaeth o wirodydd, gwinoedd, coctels, cwrw a seidr lleol, a bydd bwyd wedi'i arlwygo gan Grazing Shed, Ffwrnes, Meat and Greek a Bay 5.

Elfen hollbwysig i Gŵyl Fach y Fro yw ei fod yn ddigwyddiad rhad ac am ddim, mewn lleoliad unigryw, cyhoeddus a phoblogaidd ar Ynys y Barri, gan ei wneud yn ddigwyddiad hynod hygyrch i bawb; boed yn siaradwr Cymraeg, neu'n cael eu profiad cyntaf o'r iaith a'r diwylliant. Mae'r ŵyl yn dechrau am 11am ac yn gorffen am 7pm.

Mae Gŵyl Fach y Fro yn derbyn cefnogaeth parhaus gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Bro Morgannwg, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chronfa Loteri Fawr.

Bydd modd i ymwelwyr wirio'r rhaglen a'r wybodaeth ddiweddaraf am Gŵyl Fach y Fro ar wefan, tudalen Facebook, Twitter ac Instagram Menter Bro Morgannwg:

www.menterbromorgannwg.cymru

Facebook: Menter Bro Morgannwg

Twitter: @MIBroMorgannwg

Instagram: Menter Bro Morgannwg

#gwylfachyfro

Nodiadau

- *Gŵyl Fach y Fro yw'r ŵyl a sefydlwyd gan Menter Bro Morgannwg yn 2015 i ddathlu'r defnydd o'r Gymraeg ym Mro Morgannwg.*
- *Prif nod y Fenter yw i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol ym Mro Morgannwg, ac i gynnig a chreu cyfleoedd i blant, pobl ifanc ac oedolion i ddefnyddio'u Cymraeg y tu allan i furiau'r ysgol ac oriau gwaith.*